

# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 39
RHAGFYR 2011

Cwestiwn y byddwn yn ei glywed yn aml yr adeg yma o'r flwyddyn yw: 'Ydych chi'n barod ar gyfer y Nadolig?' Mae'n wir fod yna bwysau aruthrol ar bobl heddiw i anelu at greu y Nadolig perffaith drwy sicrhau bod pob dim yn mynd yn hwylus: anrhegion delfrydol wedi'u lapio'n gelfydd; bwyd o'r ansawdd gorau am bris rhesymol; addurniadau llachar a phrydferth wedi'u gosod ar goeden urddasol fythol wyrdd, a chardiau trawiadol wedi'u hanfon ymhell cyn y dyddiad postio olaf. Oes, mae yna lawer o bethau i'w cyflawni a digon rhwydd yw suddo o dan straen yr holl bwysau masnachol!

Ond neges o gysur sydd gen i wrth i'r Nadolig agosáu: os na fydd y paratoi yn hollol berffaith ac os na fyddwch yn teimlo'n gwbl barod ar gyfer y diwrnod mawr, peidiwch â phoeni oherwydd fe fyddwch mewn cwmni da. Nid oes ond angen i chi feddwl am rai o brif gymeriadau stori'r geni megis Mair a Joseff, y bugeiliaid a'r seryddion, i sylweddoli nad oedd y rhain yn berffaith barod ar gyfer geni Iesu Grist.

Do, mae'n siwr fod Mair a Joseff wedi bod yn paratoi yn ddyfal ar gyfer dyfodiad y baban Iesu. Roedd Mair wedi ymateb yn gadarnhaol i gais Duw i fod yn fam i'w unig anedig fab. Roedd Joseff wedi penderfynu peidio â throi cefn ar Mair ond i fod yn rhan o'r cynllun i fagu mab Duw. Ond a oedden nhw'n barod pan ddaeth hi'n amser geni'r Iesu? A oedd ganddynt ystafell fach glud a chrud i'r baban? A oeddent wedi trefnu bod bydwraig wrth law i gynorthwyo gyda'r geni? Na, dim o gwbl. Pan ddaeth awr geni Crist, nid oedd yna fawr o drefn yn ôl yr hanes yn Efengyl Luc a'r argraff sy'n cael ei greu yw iddynt fod yn ffodus i sicrhau preseb i'r Iesu mewn llety'r anifeiliaid a hynny ar yr unfed awr ar ddeg.

Beth wedyn am y bugeiliaid oedd yn gwarchod eu praidd? Yn sicr, ni chawsant hwythau fawr o gyfle i baratoi i fynd i ymweld â'r preseb. Rhybudd sydyn a gawsant gan angylion Duw a go brin eu bod wedi cael cyfle i ymolchi a newid dillad, neu sicrhau trefniadau i ofalu am y praidd yn eu habsenoldeb, heb sôn am drefnu anrheg. Na, ni fuodd fawr o baratoi gan y bugeiliaid ar gyfer geni Iesu.

Ond beth am y seryddion? Do, mae'n wir eu bod wedi paratoi am amser cyn geni'r Iesu. Roeddent yn gwybod fod yna frenin i gael ei eni am iddynt weld ei seren ef ar ei chyfodiad, Roedd yna baratoi wedi bod yn sicr ac roeddent hyd yn oed wedi trefnu anrhegion drudfawr: aur, thus a myrr. Ond a oedd y paratoi wedi bod yn ddigonol? Na, collasant y ffordd i Fethlehem, ac yn hytrach na chyraedd y preseb cyraeddasant balas Herod. Dyna chi gamgymeriad!

Er bod trefniadau ymarferol Mair a Joseff, y bugeiliaid a'r seryddion, ymhell o fod yn berffaith, diolchwn nad oedd dyfodiad Mab Duw i'n byd yn ddibynnol ar baratoadau daearol delfrydol. Hynny yw, y peth pwysicaf oll oedd bod yr Iesu yn cael ei eni yng nghyflawnder yr amser a bod y bugeiliaid a'r doethion yn cyrraedd Bethlehem, parod neu beidio. Wrth agosáu at Ŵyl y Nadolig, diolchwn ninnau hefyd nad yw dyfodiad Crist i'n byd yn ddibynnol ar ein paratoadau. Cofiwn mai cyrraedd Bethelehem yw'r nod a gweld yr Iesu o'r newydd.

Nadolig Llawen a phob bendith.

Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

**CALENDR RHAGFYR 2011**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddwr y Mis: Eirian Reynolds**<br>4 Rhagfyr 2.30yp | **Organydd y Mis: Mair Evans**<br><br>Oedfa Gymun<br>Gweinidog | <br><br>Bwrdd y Cymun:<br>Mervyn a Sue |
| 11 Rhagfyr 10.30yb<br><br><br><br>2.00yp | Oedfa Carol a Chân<br>Fe fydd y plant yn ymarfer yn y festri ar gyfer yr Oedfa Nadolig o dan arweiniad Mrs Ceri Williams.<br><br>Oedfa Arbennig yng nghwmni Dafydd Iwan i blant a phobl ifainc yn y Morlan am 2yp.<br>Croeso cynnes i bawb. | |
| 18 Rhagfyr 2.30yp | Oedfa Nadolig | Gofal y Te: |
| 25 Rhagfyr 8.00yb | Oedfa Gymun Dydd Nadolig | |
| 1 Ionawr 2.30yp | Oedfa Gymun Dydd Calan | Bwrdd y Cymun:<br>Rhiannon |

**I'CH DYDDIADUR**

5 Rhagfyr: Cinio Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd: 12.00-1.30yp
14 Rhagfyr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00
14 Rhagfyr: Cinio Cymdeithas Bethel yn y Ffarmers, Llanfihangel y Creuddyn
15 Rhagfyr: Plygain yn Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch am 7.30yh
17 Rhagfyr: Ffair Nadolig Bethel am 10yb
19 Rhagfyr: Canu Carolau o gwmpas y Wardiau yn ysbyty Bronglais. Cyfarfod yng nghapel yr Ysbyty am 6yh.
20 Rhagfyr: Oedfa Nadolig y Cylch Meithrin yn Horeb
22 Rhagfyr : Gwasanaeth Nadolig Ysgol Gyfun Penweddig ym Methel am 10.30yb
27 Rhagfyr: Cwrdd Gweddi Misol am 7.30yh
9-13 Ionawr: Arddangosfa Pen-Blwydd y Festri ar agor o 2-4yp. Arlwyir paned o de.
21 Chwefror: Noson Grempog yn Festri Horeb

**LLOFFION**

**Dymuniadau gorau** i Dafydd Parry sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

**Grŵp Addoli Horeb**: Fe fydd y Grŵp Addoli yn cynnal Oedfaon yn Nhregerddan ar yr 11eg Mawrth a 10 Mehefin am 3.30yp.

**Apêl Pen-pal**: Yn ystod ei hymweliad â Sri Lanka cafodd Lynne Hughes syndod bod y plant yn gofyn am bensiliau a beiros yn hytrach nag arian. Mae'n fwriad gan Lynne gasglu cymaint â phosib o'r nwyddau hyn, gan gynnwys papur a crayons, i'w hanfon i'r plant yn Sri Lanka. Mae ganddi gyswllt fel y gellir eu dosbarthu yn briodol. Bydd yr apêl ar agor tan y Nadolig a gellir cyflwyno unrhyw gyfraniad i Sue a Mervyn Hughes. Dewch â'ch rhoddion i'r Oedfa Nadolig.

**Rhaglen Cymanfa Ganu 2012:** copïau ar gael gan Robert neu Ceris. Pris: £1.30

**Dathlu 80 mlynedd ers Agor y Festri**: Cynhelir arddangosfa yn y festri o luniau yn dangos amrywiol weithgareddau yng nghapel Horeb dros y blynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i William am osod yr arddangosfa yn ei lle. Bydd yr arddangosfa ar agor bob prynhawn o Ddydd Llun 9fed Ionawr tan 15fed Ionawr rhwng 2 a 4yp. Arlwyir paned o de hefyd. At hynny, ar y **15fed Ionawr** byddwn yn cynnal oedfa arbennig i ddathlu pen-blwydd y festri gydag aelodau yn hel atgofion. Diolch i bawb sydd wedi cydsynio i greu'r oedfa hon. Bydd Rhiannon Williams yn dod i Horeb ar yr 8fed Ionawr er mwyn cael gair byr gyda phawb a fydd yn cymryd rhan gan mai hi fydd yn llunio trefn yr oedfa.

**Nodyn gan y Trysorydd:** 'Er mwyn cydymffurfio ag anghenion awdit byddwn yn cau'r llyfrau ar 31 Rhagfyr 2011 ac felly gofynnwn yn garedig i bob cyfraniad fod mewn llaw erbyn 23 Rhagfyr fan bellaf. Bydd unrhyw gyfraniad ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2012'. Diolch yn fawr